

CYRSIAU CYFRIFEG A CHYLLID PROFFESIYNOL

Medi 2023 - Awst 2024

Tom Burns, Myfyriwr graddedig ACCA

www.decymru.ac.uk/cyfrifeg

PAM ASTUDIO CYMHWYSTER CYFRIFEG BROFFESIYNOL YM MHRIFYSGOL DE CYMRU?

Mae gan Brifysgol De Cymru hanes cyfoethog o ddarparu hyfforddiant o'r radd flaenaf ar gyfer cymwysterau Cyfrifeg Broffesiynol ACA ac ACCA. Fel arfer rydym yn addysgu 200-250 o fyfyrwyr Cyfrifeg Broffesiynol bob blwyddyn. Mae gennym 50 mlynedd o brofiad yn addysgu ACCA a lansiwyd ein cwrs ACA yn 2012, gan weithio'n agos gydag ICAEW. Ym mis Medi 2018 hefyd, lansiwyd ein MSc mewn Cyfrifeg Broffesiynol arloesol (gyda hyfforddiant ACCA).

Rydym yn falch iawn o fod yn yr 20 uchaf yn y DU ar gyfer ein cyrsiau Cyfrifeg a Chyllid yn Nhablau Cynghrair Prifysgolion y Guardian 2020-2022, ac i ennill gwobr 'Public Sector College of the Year' yng Ngwobrau Cylchgrawn PQ 2023.

TÎM DYSGU PROFIADOL A FFOCYSEDIG

Mae ein tîm hyfforddi cwrs proffesiynol yn cynnwys naw cyfrifydd cymwysedig ac un cyfreithiwr cymwysedig sydd ag ymarfer cyfrifeg sylweddol a phrofiad diwydiant. Mae gan aelodau'r tîm brofiad helaeth o ddysgu myfyrwyr sut i basio arholiadau proffesiynol. Rydym yn cyflwyno sesiynau DPP ar gyfer y cyrff proffesiynol lleol ac yn cymryd rhan mewn hyfforddiant DPP pwrpasol ar gyfer sefydliadau mawr.

ACHREDIAD ANSAWDD

Rydym yn Bartner Dysgu ICAEW ac yn Bartner Dysgu Cymeradwy Platinwm ACCA, i gydnabod ein cyfraddau pasio rhagorol a'n cymorth bugeiliol i fyfyrwyr.

ENILLYDD GWOBRAU

Rydym wedi cael ein henwi fel 'Public Sector Accountancy College of the Year' Cylchgrawn PQ yn 2010, 2012, 2016 a 2023. Enillodd ein Harweinydd Cwrs ICAEW Darlithydd y Flwyddyn yng Ngwobrau PQ 2021 hefyd. Mae gennym hefyd fyfyrwyr sydd wedi ennill gwobrau. Mae myfyrwyr ACCA PDC wedi ennill gwobrau byd-eang mewn papurau Lefel Proffesiynol Strategol mewn pedwar diet arholiad diweddar - Mehefin 2019, Medi 2020, Mehefin 2021 a Mehefin 2022.

*Nid yw ffug arholiadau yn berthnasol i bapurau a asesir yn fewnol gan yr ACCA.

HYFFORDDIANT MEWN LLEOLIAD ALLWEDDOL YN NE CYMRU

Mae ein Hwb Dysgu Proffesiynol wedi'i leoli ar ein campws o'r radd flaenaf ar lannau'r afon Wysg yng nghanol dinas Casnewydd. Mae gan Gampws Dinas Casnewydd ystafelloedd addysgu rhagorol, llyfrgell a siop goffi ar y campws. Mae'n hawdd cyrraedd y campws o orsaf drenau Casnewydd a Chyffyrdd 27 a 28 yr M4 gyda digon o leoedd parcio diogel ar garreg y drws. Mae ein cyrsiau ACCA, ICAEW ac MSc mewn Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA) yn cael eu haddysgu ar y campws hwn.

ADNODDAU ASTUDIO A CHYFLOGWR

Darperir yr holl adnoddau gan gynnwys profion cynnydd a ffug arholiadau* i'n myfyrwyr fel rhan o'r ffioedd dysgu. Mae adroddiadau perfformiad myfyrwyr ar gyfer cyflogwyr sy'n noddi ar gael ar gais. Mae ein hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth, ymarfer cwestiynau a segmentau adolygu, ac rydym yn codi un ffi gyffredinol fesul modiwl am yr holl elfennau hyn heb unrhyw gostau cudd na phryniannau ychwanegol yn ofynnol.

PERTHNASAU CORFF PROFFESIYNOL

Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r cyrff proffesiynol, yn lleol ac yn genedlaethol. Er enghraifft, mae ein Pennaeth Pwnc wedi bod yn Llywydd Pwyllgor De Cymru ICAEW yn 2022-23 ac rydym yn noddi digwyddiadau cyrff proffesiynol lleol yn rheolaidd fel Brecwast Dydd Gŵyl Dewi ACCA Cymru Wales.

CYRSIAU ARLOESOL

Gall myfyrwyr sy'n astudio modiwlau Lefel Gwybodaeth a Sgiliau Cymhwysol ACCA ar Gampws Dinas Casnewydd ddewis rhwng sefyll arholiadau ACCA allanol neu aseiniadau ac arholiadau mewnol prifysgol o dan gynllun arloesol a asesir yn fewnol. Mae'r cynllun mewnol, sy'n arwain at eithriadau ACCA fesul modiwl wrth basio modiwlau'r Brifysgol, yn caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy a werthfawrogir gan gyflogwyr. Mae cyrsiau adolygu ACCA ac ICAEW ar gael hefyd.

Mae ein MSc mewn Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA) yn caniatáu i fyfyrwyr gyfuno astudiaethau Proffesiynol Strategol MSc ac ACCA mewn modd arloesol ac effeithlon.



YN ARWAIN Y BYD BEDAIR BLYNEDD YN OLYNOL: PRIF SGORWYR BYD-EANG ACCA PDC

Am y pedair blynedd diwethaf, mae Prifysgol De Cymru wedi bod yn gwneud ei marc ar lwyfan y byd, gyda'n myfyrwyr yn ennill y marciau uchaf yn fyd-eang yn arholiadau ACCA. Yn destament i'n harbenigwyr pwnc a'n cwricwlwm cryf, mae'r rhediad buddugol hwn yn arddangos rhagoriaeth rhaglen gyfrifyddiaeth PDC.

ISABELLE LOWE

Yn 2022, ychwanegodd sgôr ragorol Isabelle Lowe o 96% yn yr arholiad Trethiant Uwch bluen arall yng nghap PDC. Gan ddechrau ei hastudiaethau ACCA yn 2019, cydbwysodd Isabelle ei hymroddiad i astudio â'i rôl yn Hawkins Priday. Gan briodoli ei llwyddiant yn ddiolchgar i PDC, nododd y pwyslais amhrisiadwy ar dechnegau arholiad a chanmolodd gefnogaeth ddiwyro tiwtoriaid y cwrs.



MAE'R TIWTORIAID YN PDC WEDI BOD MOR GEFNOGOL TRWY FY NHAITH ACCA. ROEDD PWYSLAIS PDC AR DECHNEG ARHOLIADAU YN AMHRISIADWY.

Lleoliad: Campws Casnewydd
Cyflwyno'r Cwrs: Diwrnod Astudio/Prynhawn/Gyda'r Nos (yn y dosbarth gyda chefnogaeth ar-lein)

Mae'r amseroedd dysgu isod yn ddangosol a gallant newid yn ôl yr amgylchiadau.



Mae cynllun a asesi yn fewnol ar gael (Diploma/BSc Cyfrifeg Broffesiynol). Gweler Nodyn 1 ar y dudalen nesaf.	Modiwl ACCA		Bore 9.30am–1pm	Prynhawn 1.30–5pm	Nos 5.30–9pm	Diwrnod dysgu a dyddiadau blociau dysgu	Cyswllt Academaidd
	Gwybodaeth Gymhwysol:					Dydd Mawrth: 12 Medi-w/d 20 Tach 2023; 23 Ion-14 Mai 2024	nicola.gilbert@southwales.ac.uk
	Busnes a Thechnoleg (BT)				Medi		
	Cyfrifeg Rheolaeth (MA)			Medi			
	Cyfrifeg Ariannol (FA)			Ion			
	Sgiliau Cymhwysol:						nicola.gilbert@southwales.ac.uk (astudio rhan-amser)
	Cyfraith Gorfforaethol a Busnes (LW)			Medi	Ion**		
	Rheoli Perfformiad (PM)			Ion**	Medi		
	Trethiant (TX)			Ion	Medi		
	Adroddiadau Ariannol (FR)			Medi	Ion		
Archwilio a Sicrwydd (AA)			Ion	Medi			
Rheolaeth Ariannol (FM)			Medi	Ion	(Neu rhian.gosling os ydych yn ymgeisio i astudio amser llawn)		
Astudiaethau cyfun gyda MSc Cyfrifeg Broffesiynol ar gael. Gweler Nodyn 2 (tudalen 6)	Gweithiwr Proffesiynol Strategol:						nicola.gilbert@southwales.ac.uk (astudio rhan-amser)
	Arweinydd Busnes Strategol (SBL)			Medi [†]		Dydd Iau: 14 Medi-30 Tach 2023; 25 Ion-23 Mai 2024	
			Ion [†]				
	Adroddiadau Busnes Strategol (SBR)			Ion	Medi	Dydd Mercher: 13 Medi-w/d 27 Tach 2023; 10 Ion-w/d 27 Mai 2024	
	Dewisiadau Uwch:						
	Rheolaeth Ariannol Uwch (AFM)			Ion			
	Rheoli Perfformiad Uwch (APM)				Ion		
	Trethiant Uwch (ATX)		Medi*	Ion			
Archwilio a Sicrwydd Uwch (AAA)		Ion	Medi*				

Mae darpariaeth sy'n dechrau ym mis Medi (a nodir fel 'Medi' uchod) yn rhedeg rhwng Medi a Tachwedd 2023 ac yn paratoi myfyrwyr ar gyfer arholiadau mis Rhagfyr 2023.

Mae darpariaeth sy'n dechrau ym mis Ionawr (a nodir fel 'Ionawr' uchod) yn rhedeg rhwng Ionawr a Mai 2024 ac yn paratoi myfyrwyr ar gyfer arholiadau mis Mehefin 2024. Mae yna wyliau Pasg o dair wythnos am y 3 wythnos yn dechrau 25 Mawrth 2024.

Mae modiwlau Sgiliau Cymhwysol a Gwybodaeth Gymhwysol ym mis Medi hefyd yn cynnwys 2 ddiwrnod astudio ychwanegol fesul modiwl y tu allan i'r amserlen arferol uchod, a fydd yn rhedeg 9.30am-4.30pm.

Mae modiwlau Opsiynau Proffesiynol Strategol/Uwch hefyd yn cynnwys 3 diwrnod astudio ychwanegol fesul modiwl y tu allan i'r amserlen arferol (ac eithrio SBL, sydd ag un diwrnod ychwanegol).

*Mae'r ddarpariaeth sydd wedi'u nodi â seren yn amodol ar alw digonol gan fyfyrwyr. **Bydd darpariaethau dwys ychwanegol o PM ac LW ar gael Ionawr i Chwefror a Mawrth i Mai 2024 (diwrnodau cyfan bob wythnos), yn amodol ar alw gan fyfyrwyr.

[†]Yn gyffredinol mae modiwlau naill ai'n rhedeg mewn slotiau 9.30am-1.00pm, 1.30pm-5.00pm neu 5.30pm-9.00pm. Yr eithriad i hyn yw Arweinydd Busnes Strategol, sy'n rhedeg mewn slotiau hirach (Medi: 1.30pm-9.00pm; Ionawr: 9.30am-5.00pm). Rydym hefyd yn cynnal darpariaeth SBL ychwanegol rhwng mis Hydref a mis Chwefror ar gyfer myfyrwyr amser llawn yn unig.

Mae Prifysgol De Cymru yn Bartner Dysgu Platinwm Cymeradwy ACCA, y lefel achrediad uchaf. Mae hyn yn golygu bod ein cyfraddau llwyddo yn gyson uwch na'r cyfartaleddau byd-eang.

I wneud cais am ein cyrsiau cyfrifeg broffesiynol ac ôl-raddedig, ewch i <https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/gwneud-cais/>

CYRSIAU ADOLYGU LEFEL PROFFESIYNOL STRATEGOL ACCA AR GAEL HEFYD

Ar gyfer modiwlau dethol ar gyfer arholiadau Rhagfyr 2023 a Mehefin 2024 am £125 y modiwl.

Cysylltwch â nicola.gilbert@southwales.ac.uk am ragor o fanylion.

Ar gyfer arholiadau Rhagfyr 2023: SBR, SBL, ATX, AAA; Cynhelir y cyrsiau ym mis Tachwedd 2023.

Ar gyfer arholiadau Mehefin 2024: SBR, SBL, ATX, AAA, AFM, APM; Cynhelir y cyrsiau ym mis Mai 2024.

NODIADAU CYNNYDD ACCA

Gall myfyriwr sydd angen holl fodiwlau ACCA gwblhau'r cymhwyster ymhen tua phedair blynedd yn astudio'n rhan-amser. Rydym yn argymhell uchafswm o ddau fodiwl fesul diet arholiad wrth astudio'n rhan-amser.

Rydym yn cynnig hyfforddiant ar gyfer holl fodiwlau ACCA yn rhan-amser (mynediad Medi neu Ionawr) ac yn cynnig hyfforddiant ar gyfer modiwlau Sgiliau Cymhwysol a Lefel Proffesiynol Strategol ac amser llawn hefyd (mynediad Medi neu Ionawr). Byddai llwybr astudio arferol amser llawn ym mis Medi fel a ganlyn:
Sgiliau Cymhwysol Blwyddyn 1: FR, AA Medi-Rhagfyr; PM Ionawr-Mawrth; LW Mawrth-Mehefin; FM, TX Ionawr-Mehefin
Blwyddyn 2: SBR Medi-Rhagfyr; SBL Hydref-Mawrth; Modiwlau opsiwn Ionawr-Mehefin

Rhaid sefyll arholiadau yn nhrefn Lefel ACCA (gweler isod), fodd bynnag, gellir cymryd modiwlau o fewn pob Lefel mewn unrhyw drefn.
Lefel Gwybodaeth Gymhwysol (BT, MA, FA)
Lefel Sgiliau Cymhwysol (LW, PM, TX, FR, AA, FM)
Lefel Proffesiynol Strategol (SBL, SBR a dau o AFM, APM, ATX ac AAA)

Rhaid cofrestru arholiadau sydd ar ôl mewn Lefel gyfredol os yw myfyriwr am sefyll arholiadau yn y Lefel nesaf. Dylai myfyrwyr gwblhau'r modiwl Moeseg a Sgiliau Proffesiynol ar-lein cyn iddynt ddechrau ar y Lefel Proffesiynol Strategol. Dylai myfyrwyr edrych ar amserlen arholiadau ACCA cyn dechrau ar fodiwlau. Yn benodol, dylid astudio Archwilio a Sicrwydd Uwch ar ôl Adrodd Busnes Strategol a dylid osgoi'r cyfuniadau modiwl canlynol: Arweinydd Busnes Strategol gyda Threth / Treth Uwch, Y Gyfraith gyda Rheolaeth Ariannol / Rheolaeth Ariannol Uwch, Rheoli Perfformiad Uwch gyda Threth Uwch.

Nodyn 1 - Diploma Addysg Uwch / BSc (Cyfrifeg Broffesiynol)

Gall myfyrwyr sy'n astudio'r Lefelau Gwybodaeth Gymhwysol a Sgiliau Cymhwysol ddewis rhwng sefyll arholiadau ACCA allanol neu aseiniadau ac arholiadau mewnol prifysgol. Gellir dyfarnu Diploma Addysg Uwch (Cyfrifeg Broffesiynol) prifysgol (neu BSc o 2023 ymlaen) i'r rhai sy'n cael digon o gredydau mewnol fel rhan o'u hastudiaethau ACCA. Mae'r cynllun mewnol yn arwain at eithriadau i'r ACCA fesul modiwl wrth basio modiwlau'r Brifysgol. Mae arholiadau Proffesiynol Strategol yn cael eu sefyll yn allanol.

Nodyn 2 – MSc mewn Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA)

Gall myfyrwyr ddewis astudio ein MSc mewn Cyfrifeg Broffesiynol ochr yn ochr â modiwlau Lefel Proffesiynol Strategol ACCA yn rhan-amser neu amser llawn. Mae hwn yn llwybr arloesol sy'n galluogi myfyrwyr i ennill MSc a'u harholiadau Proffesiynol Strategol ar yr un pryd. Mae maes llafur yr MSc wedi'i fapio i fodiwlau'r ACCA. Mae myfyrwyr MSc yn eistedd yn y dosbarthiadau ACCA a nodir ar y dudalen flaenorol ond yn cael gweithdai gradd Meistr ychwanegol i adeiladu sgiliau gradd Meistr academiaidd allweddol y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi. Mae aseiniadau ac arholiadau MSc mewnol yn cael eu sefyll ar bwys sefyll pob arholiad Proffesiynol Strategol ACCA allanol. Gweler tudalen 10 am fanylion pellach.

Byddai llwybr astudio MSc rhan-amser nodweddiadol fel a ganlyn (amser llawn, byddai pob modiwl yn cael ei astudio mewn blwyddyn):

Blwyddyn 1: SBR Medi-Rhagfyr; Modiwl opsiwn Ionawr-Mehefin

Blwyddyn 2: SBL Medi-Rhagfyr; Modiwl opsiwn Ionawr-Mehefin; Dulliau Ymchwil a Phrosiect Ymchwil Busnes Mehefin-Medi

FFIOEDD DYSGU 2023/2024 (ACCA)

Lefel Gwybodaeth Gymhwysol (BT, MA, FA); £580 y modiwl

Lefel Sgiliau Cymhwysol (LW, PM, TX, FR, AA, FM); £1,020 y modiwl

Lefel Proffesiynol Strategol; £1,750 ar gyfer Arweinydd Busnes Strategol, a £1,340 y modiwl ar gyfer pob modiwl arall (SBR, AFM, APM, ATX ac AAA)

Mae ein hyfforddiant yn cynnwys yr holl elfennau allweddol sydd eu hangen arnoch, am un pris fesul modiwl - nid oes angen unrhyw gostau cudd na phrynu hyfforddiant ychwanegol. Rydym yn rhannu'r wybodaeth ofynnol (cynnwys y maes llafur), yn eich ymgysylltu ag ymarfer cwestiynau ac yn cynnal sesiynau adolygu yn agos at amser arholiadau. Cynhwysir profion cynnydd ar gyfer pob modiwl; cynhwysir ffug arholiadau ar gyfer modiwlau a arholir yn allanol. Nid yw ein ffioedd dysgu yn cynnwys unrhyw ffioedd sy'n daladwy'n uniongyrchol i ACCA. Sylwch hefyd fod y ffioedd dysgu a nodir uchod yn ymwneud â hyfforddiant ACCA a/neu Dip HE / BSc Cyfrifeg Broffesiynol yn unig. Codir un set o ffioedd MSc ar fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y cwrs MSc mewn Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA) ar gyfer yr holl hyfforddiant sydd ei angen. Gweler tudalen 10 am fanylion pellach. Mae'r ffioedd a nodir uchod ar gyfer myfyrwyr cartref a rhyngwladol rhan-amser.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd myfyrwyr sy'n daladwy i ACCA (gan gynnwys aelodaeth myfyrwyr, ffioedd eithrio a mynediad arholiadau), ewch i: www.accaglobal.com.

ARDDULL CYFLWYNO HYFFORDDIANT

Mae ein model dysgu yn cynnig dosbarthiadau wyneb yn wyneb i fyfyrwyr o wythnos i wythnos yn y lle cyntaf a rhaid i unrhyw fyfyrwyr sy'n astudio ar fisa Haen 4 fynychu pob dosbarth ar y campws. Ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, mae pob dosbarth hefyd yn cael ei ddarlledu'n fyw a'i recordio, felly mae myfyrwyr nad ydynt yn gallu mynychu'r campws yn gallu cael mynediad rhithwir i'r sesiynau (naill ai'n fyw neu wrth ddal i fyny). Mae'r model hwn yn rhoi hyblygrwydd i fyfyrwyr rhan-amser gael mynediad at adnoddau ar adeg sy'n iawn iddyn nhw, yn unol â'u hanghenion, eu harddulliau dysgu a'u hoffterau.

NICOLA LLOYD

Efallai nad yw cefndir academiaidd amrywiol Nicola, gyda gradd Meistr mewn Seicoleg Glinigol, wedi awgrymu ei dyfodol mewn cyfrifeg. Ac eto, penllanw ei thaith ACCA ers 2015 ym Mhrifysgol De Cymru oedd ennill y marc uchaf yn fyd-eang yn arholiadau Lefel Proffesiynol Strategol 2019 yr ACCA, gan gynnwys 86% yn y papur Rheolaeth Ariannol Uwch. Gyda'i chanlyniadau rhagorol, daeth i'r brig o blith mwy na 57,000 o geisiadau ledled y byd.

“

**ROEDD Y NAID O'R LEFELAU
GWYBODAETH A SGILIAU
CYMHWYSOL I'R LEFEL
PROFFESIYNOL YN
ANHYGOEL. MAE ARNAF
DDIOLCH ENFAWR I'R STAFF
ADDYSGU YN PDC AM EU
CEFNOGAETH.**

ICAEW: CYMHWYSTER CFAB AC ACA



Lleoliad: Campws Casnewydd
Cyflwyno'r Cwrs: Yn y dosbarth gydag opsiwn ar-lein@. Prynhawn/Noson a Bloc (CFAB);
Diwrnod Astudio Rhan-Amser gydag Adolygu Bloc (Lefelau Proffesiynol ac Uwch ACA)

Mae'r amseroedd dysgu isod yn ddangosol a gallant newid yn ôl yr amgylchiadau.

LEFEL TYSTYSGRIF (TYSTYSGRIF CYLLID, CYFRIFEG A BUSNES, NEU CFAB):
CFAB yw'r cymhwyster mynediad ar gyfer ACA. Gall myfyrwyr gael eu heithrio o chwe modiwl CFAB drwy astudio ein Tystysgrif AU (Cyfrifeg Broffesiynol) arloesol a asesir yn fewnol. O dan y cynllun hwn mae myfyrwyr yn astudio modiwlau fel a ganlyn:
Medi-Rhagfyr: Busnes a Thechnoleg (BT) a Chyfrifyddu Rheoli (MA) (dydd Mawrth 1.30pm-9.00pm; hyfforddiant yn dechrau 12 Medi 2023)
Rhagfyr-Ionawr: Egwyddorion Trethiant (PoT) (hyd at 3 diwrnod yr wythnos am 2 wythnos; hyfforddiant yn dechrau wythnos yn dechrau 11 Rhagfyr 2023) **Ionawr-Mehefin:** Cyfrifon Ariannol (FA) a Chyfraith Gorfforaethol a Busnes (LW) (Dydd Mawrth 1.30 pm-9.00pm; hyfforddiant yn dechrau 25 Ionawr 2024)
Mehefin: Sicrwydd (AS) (hyd at 3 diwrnod yr wythnos am 2 wythnos; hyfforddiant yn dechrau wythnos yn dechrau ar 10 Mehefin 2024)
Cyfanswm cost dysgu cymhwyster CFAB = £3,770 (dadansoddiad fesul modiwl ar gael ar gais).
Cysylltwch â rebecca.wright@southwales.ac.uk am ragor o wybodaeth.

CYMHWYSTER ACA:
Blwyddyn Un (Lefel Proffesiynol)
Medi-Rhagfyr: Cyfrifeg ac Adrodd Ariannol a Strategaeth Busnes a Thechnoleg | Ionawr-Mawrth: Cydymffurfiaeth Treth | Mawrth-Mehefin: Trethiant Cynllunio Busnes
Blwyddyn Dau (Lefelau Proffesiynol ac Uwch)
Medi-Rhagfyr: Rheolaeth Ariannol, ac Archwilio a Sicrwydd (Lefel Proffesiynol) | Ionawr-Gorffennaf: Lefel Uwch

Lefel	Modiwl	Amser	Cyswllt Academiaidd	Ffioedd Dysgu*
Lefel Proffesiynol	Cyfrifon ac Adroddiadau Ariannol (FA&R) Strategaeth Busnes a Thechnoleg (BST) Rheolaeth Ariannol Archwilio a Sicrwydd	Bydd y dysgu'n dechrau ddydd Llun 11 Medi 2023. Dysgir pob modiwl am ddiwrnodau cyfan (9.30am-5pm) bob yn ail wythnos am 10 wythnos. E.e. ym Mlwyddyn 1 bydd myfyrwyr yn astudio FA&R ar un dydd Llun a BST y dydd Llun canlynol. Mae gan bob modiwl hefyd bloc adolygu 2 ddiwrnod ar ddiwedd yr hyfforddiant. Cynhelir arholiadau ym mis Rhagfyr 2023.	rebecca.wright@southwales.ac.uk	£1,020 fesul modiwl
	Cydymffurfiaeth Treth	Bydd y dysgu'n dechrau ddydd Llun 8 Ionawr 2024, (9.30am-5pm). Dysgir Cydymffurfiaeth Treth (TC) am 6 wythnos a bydd bloc adolygu deuddydd yn dechrau'r wythnos 19 Chwefror. Cynhelir arholiad TC ym mis Mawrth 2024.		
	Trethiant Cynllunio Busnes	Bydd y dysgu'n dechrau ddydd Llun 11 Mawrth 2024, 9.30-5pm. Dysgir Trethiant Cynllunio Busnes (BPT) am 6 wythnos. Yn ogystal â bloc adolygu tridiau yn yr wythnos yn dechrau 20 Mai. Arholiad BPT ym mis Mehefin 2024.		
Lefel Uwch	Integreiddio Technegol (CR, SBM) ac Astudiaeth Achos	Bydd y dysgu'n dechrau ddydd Llun 8 Ionawr 2024, 9.30am-5pm. Cynhelir hyfforddiant Rheoli Busnes Strategol ac Adrodd Corfforaethol rhwng Ionawr-Mehefin 2024. Arholiadau Gorffennaf 2024. Bydd y dysgu'n dechrau ar gyfer Astudiaethau Achos yn Hydref 2023 a/neu Hydref 2024.		Integreiddio Technegol £1,340 yr un Astudiaeth Achos £1,600

Cyrsiau adolygu hefyd ar gael ar gyfer arholiadau mis Rhagfyr, Mawrth a Mehefin (modiwlau Lefel Proffesiynol ac uwch dethol), £150 y modiwl. Cysylltwch â: rebecca.wright@southwales.ac.uk

ARDDULL CYFLWYNO HYFFORDDIANT

Mae ein model dysgu yn cynnig dosbarthiadau wyneb yn wyneb i fyfyrwyr o wythnos i wythnos yn y lle cyntaf. Mae'r holl ddosbarthiadau hefyd yn cael eu darlledu'n fyw ac wedi'u recordio, felly mae myfyrwyr nad ydynt yn gallu mynychu'r campws yn gallu cael mynediad rhithwir i'r sesiynau (naill ai'n fyw neu wrth ddal i fyny). Mae'r model hwn yn rhoi hyblygrwydd i fyfyrwyr gael mynediad at adnoddau ar adeg sy'n iawn iddyn nhw, yn unol â'u hanghenion dysgu, eu harddulliau a'u hoffterau.

Mae ffioedd dysgu yn cynnwys cost deunyddiau astudio ICAEW, profion cynnydd a ffug arholiadau, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ffioedd sy'n daladwy'n uniongyrchol i gorff proffesiynol ICAEW. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd myfyrwyr sy'n daladwy i ICAEW (gan gynnwys aelodaeth myfyrwyr, ffioedd eithrio a ffioedd mynediad arholiadau). Ewch i: www.icaew.com



BRYONY LEWIS
Sgoriodd Bryony Lewis, 27, o Raglan, Sir Fynwy, y marc uchaf ar y cyd yn fyd-eang yn ei harholiad Trethiant Uwch ACCA Medi 2020, gan gofnodi sgôr o 91%. Bellach yn cael ei chyflogi gan Azets, nid oedd taith Bryony yn hawdd, gan fod y cyfnod clo wedi ymyrryd â'i hastudiaethau a gwelodd ei harholiadau'n cael eu gohirio. Er gwaethaf yr heriau hyn, allan o 5,200 o fyfyrwyr a safodd y papur y flwyddyn honno, Bryony ddaeth i'r brig.

“
BYDDAI FY NARLITHYDD TRETH UWCH BOB AMSER YN ATEB FY YMHOLIADAU, MAWR NEU FACH, ROEDD YN BRAF GWYBOD BOD Y MATH HWNNW O GYMORTH YNO BOB AMSER.

MSc MEWN CYFRIFEG BROFFESIYNOL (GYDA HYFFORDDIANT ACCA)

Lleoliad: Campws Casnewydd (amser llawn a rhan-amser)

Mae'r amseroedd dysgu isod yn ddangosol a gallant newid yn ôl yr amgylchiadau.

Mae ein cwrs MSc Cyfrifeg Proffesiynol arloesol (gyda hyfforddiant ACCA) yn cyfuno astudiaeth academiaidd uwch gyda chymhwyster Cyfrifeg proffesiynol.

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at fyfyrwyr sydd wedi cwblhau modiwlau Gwybodaeth a Sgiliau Cymhwysol, cymhwyster proffesiynol ACCA (BT - FM), neu'r rhai sydd wedi'u heithrio o'r modiwlau ACCA hyn yn rhinwedd astudio gradd Cyfrifeg, a gydnabyddir ac a achredir gan ACCA.

Wedi'u haddysgu gan diwtoriaid arobryn o'n rhaglen ACCA achrededig platinwm, mae modiwlau ar y cwrs Meistr Cyfrifeg hwn yn cyd-fynd â chymhwyster Lefel Proffesiynol Strategol derfynol Cymhwyster Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA). Mae myfyrwyr yn barod i sefyll pedwar arholiad allanol Proffesiynol Strategol ACCA[#] ar ben cwblhau asesiadau Meistr mewnol. Mae'r cwrs felly'n cynnig trefn astudio sy'n hynod effeithlon o ran cost ac amser, gydag astudiaethau Meistr proffesiynol ac academiaidd yn digwydd ar yr un pryd. Ar y cwrs amser llawn gall myfyrwyr ennill cymhwyster gradd Meistr a sefyll holl arholiadau ACCA mewn blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn, cysylltwch â Rhian Gosling, Arweinydd Cwrs ar: rhian.gosling@southwales.ac.uk

Modiwl MSc a Modiwl ACCA	Credydau	Amseroedd	Patrwm cyflenwi	Dyddiadau allweddol 23/24
Amser llawn 2023/24				
Adroddiadau Busnes Strategol (SBR)	40	Medi - Rhagfyr 2023	80 awr o hyfforddiant. Fel arfer 5.5 awr yr wythnos ynghyd â diwrnodau astudio cyfan ychwanegol.	Sesiwn anwytho Meistr a'r dysgu'n dechrau Dydd Mercher 13 Medi 2023. Cynhelir arholiad SBR allanol ym mis Rhagfyr 2023 sef wythnos arholiadau ACCA.
Arweinydd Busnes Strategol (SBL)	40	Hydref 2023- Mawrth 2024	91 awr o ddysgu: 7 awr yr wythnos ar draws 13 wythnos (6 wythnos cyn y Nadolig, 7 wythnos ar ôl y Nadolig).	Bydd y dysgu'n dechrau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 16 Hydref 2023. Cynhelir arholiad SBL allanol ym mis Mawrth 2024 sef wythnos arholiadau ACCA.
Modiwlau Opsiwn Uwch (AFM, APM, ATX,AAA)	40 fesul modiwl	Ionawr- Mehefin 2024	80 awr o ddysgu fesul modiwl (myfyrwyr yn astudio 2 fodiwl o 4). Fel arfer 3.5 awr yr wythnos ynghyd â diwrnodau tiwtorial Meistr ychwanegol.	Bydd y dysgu'n dechrau 10 Ionawr 2024. Cynhelir arholiadau allanol ym mis Mehefin 2024 sef wythnos arholiadau ACCA.
Prosiect Ymchwil Busnes	20	Mehefin- Medi 2024	Sesiynau methodoleg ymchwil Mehefin 2024, ynghyd â chymorth prosiect 1-i-1.	Mehefin 2024- bydd yr Hyfforddiant Methodoleg Ymchwil yn dechrau. Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich Prosiect Ymchwil Busnes- diwedd Medi 2024.
Rhan-amser 2023/24				
Adrodd Busnes Strategol NEU Arweinydd Busnes Strategol	40 fesul modiwl	Medi-Rhagfyr 2023	SBR- prynhawniau a nosweithiau Mercher. 5.5 awr yr wythnos ynghyd â diwrnodau astudio cyfan ychwanegol. SBL - Dydd lau (1.30pm-9pm)	Bydd y dysgu'n dechrau ar 13 Medi 2023 (SBR) neu 14 Medi (SBL). Cynhelir arholiadau allanol ym mis Rhagfyr 2023 sef wythnos arholiadau ACCA.
Modiwl Opsiwn Uwch (dewiswch o ATX, AAA,AFM,APM)	40 fesul modiwl	Ionawr- Mehefin 2024	Dydd Mercher: ATX: 1.30-5pm Gweithdy ACCA AAA: 9.30-1pm Gweithdy ACCA AFM: 1.30-5pm Gweithdy ACCA APM: 5.30-9pm Gweithdy ACCA <i>Sylwch y bydd tiwtorialau MSc ychwanegol (diwrnod cyfan neu hanner diwrnod, cyfanswm o 20 awr/modiwl) hefyd yn cael eu hamserlennu.</i>	Mae'r hyfforddiant yn dechrau Dydd Mercher 10 Ionawr 2024; Cynhelir arholiadau allanol ym mis Mehefin 2024 sef wythnos arholiadau ACCA.

I gael ffioedd dysgu cyfredol a gwybodaeth am fwrsariaethau PDC a benthyciadau myfyrwyr ôl-raddedig, ewch i dudalennau cyrsiau PDC.

Nid yw ffioedd dysgu yn cynnwys unrhyw ffioedd sy'n daladwy i gorff proffesiynol ACCA. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y ffioedd sy'n daladwy i ACCA (gan gynnwys aelodaeth myfyrwyr, ffioedd eithrio a ffioedd mynediad arholiadau), ewch i: www.accaglobal.com

Sylwch mai cyfrifoldeb myfyrwyr yw sefyll arholiadau allanol ACCA. Ewch i www.accaglobal.com am ragor o fanylion.



WILLIAM DOUGLAS

Enillodd William Douglas, o Gaerdydd, yr ail farc byd-eang ar y cyd ar gyfer arholiadau Lefel Proffesiynol Strategol Mehefin 2021 ACCA gyda chyfartaledd o 85.75%. Gan ddechrau ar ei daith PDC yn 2016, trawsnewidiodd William o HND Astudiaethau Busnes i radd BA (Anrh) Cyfrifeg a Chyllid, ac yn y pen draw yr MSc mewn Cyfrifeg Broffesiynol gyda hyfforddiant ACCA yn 2020. Yn ystod y flwyddyn academiaidd hon, cyflawnodd farc rhyfeddol o 96% yn ei bapur Rheolaeth Ariannol Uwch.

“

TORRODD Y DARLITHWYR BYNCIAU I LAW R I DDARNAU BACH HYLAW, GAN EIN GALLUOGI I'W GWEITHREDU MEWN SENARIOS YN Y BYD GO IAWN.

GYDA PHOB BLWYDDYN SY'N MYND HEIBIO, MAE EIN HYMGEISWYR ACCA YN PARHAU I DRA-RHAGORI AR EU CYFEILLION YN FYD-EANG, GAN SEFYDLU SEFYLLFA PDC FEL PWERDY MEWN ADDYSG GYFRIFYDDIAETH. WRTH I NI DDATHLU EIN PENCAMPWYR, RYDYM YN AROS YN YMRWYMEDIG I FAETHU'R GENHEDLAETH NESAF O ARWEINWYR BYD-EANG.

CYRSIAU

Campws Casnewydd

- Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)
- CFAB ac ACA – Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)
- MSc Cyfrifeg Broffesiynol (gyda hyfforddiant ACCA)

Campws Pontypridd

- BA (Anrh) Cyfrifeg a Chyllid
- BSc (Anrh) Bancio, Cyllid a Buddsoddi (Atodol)
- MSc Cyllid a Buddsoddi
- MSc Archwilio Fforensig a Chyfrifyddu
- MSc Rheolaeth Gwasanaethau Ariannol



@De_Cymru

Ewch i: www.decymru.ac.uk/cyfrifeg

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir adeg ei argraffu (Medi 2023), ond gall newid. I gael y wybodaeth ddiweddaraf, ffoniwch neu edrychwch ar ein gwefan: www.decymru.ac.uk

Fel rhan o'i ymrwymiad at yr iaith Gymraeg, y mae'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. I wybod mwy, ewch i: www.decymru.ac.uk neu e-bostiwch: cymraeg@decymru.ac.uk

Cynhyrchwyd gan adran Myfyrwyr y Dyfodol Prifysgol De Cymru

Dylunio: Argraffu a Dylunio PDC

Mae Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig. Rhif Cofrestru.1140312.